

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Hydref 2022

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2022 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan cysylltiad sy'n rhagfarnu a phersonol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022 (copi ynghlwm).

5 CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN (Tudalennau 15 - 86)

Ystyried adroddiad (**sy'n cynnwys dau atodiad cyfrinachol**) gan y Cyngorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) ynghylch dau gynllun amddiffyn yr arfordir posib ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r prosiect i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu cyfnod adeiladu'r ddau gynllun.

6 ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL (Tudalennau 87 - 136)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol gan gymryd ystyriaeth o argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

7 PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN - ADRODDIAD YMGYNGHORI FFURFIOL AR DREFNIADAETH YSGOL (Tudalennau 137 - 226)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd (copi ynghlwm) ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol i gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn o 1 Medi 2024 os bydd yr adeilad newydd yn barod.

8 SYSTEM GWRESOGI ARDAL BETWS GWERFIL GOCH (Tudalennau 227 - 248)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) ynghylch y posibilrwydd o system wresogi ardal ar gyfer pentref Betws Gwerfil Goch yn cynnwys darparu pypiau gwres o'r ddaear i anheddau'r cyngor a rhai preifat a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi'r Contractwr, Kensa i ddechrau cam dylunio'r prosiect.

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (Tudalennau 249 - 282)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2021/22.

10 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 283 - 330)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 331 - 336)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Gwyneth Ellis
Gill German
Elen Heaton
Julie Matthews
Jason McLellan

Barry Mellor
Win Mullen-James
Rhys Thomas
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned